**Nodyn gan y Cadeirydd**

Wrth i 2019 dynnu at ei therfyn gallwn edrych yn ôl ar flwyddyn gyffrous a phrysur i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

Er gwaetha'r cwmwl o ansicrwydd sy'n dal uwchben Brexit, mae sector bwyd a diod Cymru'n parhau i ffynnu gan allforio mwy nag erioed. Y llynedd yn unig, allforiodd y diwydiant werth £539 miliwn o gynnyrch – cynnydd o 20% ar y flwyddyn flaenorol, o gymharu â chynnydd o ddim ond naw y cant yn y DU'n gyffredinol.

Fel Bwrdd, rydyn ni'n awyddus i adeiladu ar ein llwyddiant diweddar drwy ein cynllun gweithredu nesaf a fydd yn ein codi i lefel newydd yn ein stori ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cael ei greu ar y cyd rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru. Dros y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gofyn i gynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr a mân-werthwyr rannu eu canfyddiadau a'u syniadau gwerthfawr ar sut y gall y diwydiant lwyddo yn y dyfodol ac i wneud yn siŵr fod y cynllun hwn y gorau y gallwn ni ei greu ar gyfer Cymru.

Mae adborth y diwydiant ynghylch y prinder sgiliau a allai godi a phrofiadau proffesiynol yn ogystal â thrafodaethau ynghylch rhaglenni hyfforddi, achredu a phartneriaethau oll wedi cyfrannu at y cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Fis Tachwedd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ein cynhadledd *Paratoi ar gyfer Twf Cynaliadwy,* cyhoeddwyd canlyniad y Rhaglen Barod am Fuddsoddwyr. Mae busnesau bwyd a diod ledled Cymru wedi derbyn mwy na £5.5 miliwn o fuddsoddiadau masnachol o ganlyniad i'r cynllun, a oedd wedi'u sefydlu i helpu'r sector bwyd a diod dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

Roedd yn hynod ddiddorol clywed canlyniadau byw o arolwg o gynrychiolwyr yn y gynhadledd wrth ofyn am eu barn ynghylch twf. Dywedodd 97% eu bod yn bwriadu tyfu yn ystod y blynyddoedd nesaf ac mae 94% o ddarparwyr cyllid a buddsoddwyr eisiau gweithio gyda'r sector bwyd a diod. Ond, dywedodd y rhan fwyaf (64%) o fusnesau yn y gynhadledd nad oedd ganddyn nhw gynllun clir ar gyfer buddsoddi ac nid oedd gan mwy na hanner (52%) gynllun ar gyfer tyfu.

Roedden ni'n falch o glywed fod 96% o'r busnesau oedd yn cael eu cynrychioli yn y gynhadledd yn deall yn well sut i baratoi ar gyfer gwella ar ôl gwrando ar fusnesau eraill a mynychu sesiynau a gweithdai'r gynhadledd.

Roedden ni hefyd yn trafod y manteision o allforio o Gymru o fewn y DU a bod mwy o fwydydd Cymru wedi cael enw tarddiad gwarchodedig gan yr Undeb Ewropeaidd y llynedd. Daeth Eirin Dinbych yr 16eg eitem o gynnyrch bwyd o Gymru i gael ei hychwanegu at y rhestr enwau tarddiad gwarchodedig.

Wrth gwrs, mae yna'n dal fwy o gwestiynau nag sydd o atebion ar hyn o bryd ynghylch Brexit a sut y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar fwydydd, tollau a mwy. Fel Bwrdd, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i annog busnesau i baratoi gymaint â phosibl ar gyfer Brexit ac wedi eu cyfeirio at adnoddau'n rheolaidd. Cofiwch ein dilyn ni ar Twitter @FoodDrinkWIB i gael y diweddaraf.

Rydyn ni hefyd wedi cynnal rhai digwyddiadau clwstwr hynod ddefnyddiol i rwydweithio, yng Ngwinllan Llannerch yn Hensol fis Hydref ac yn Dylan's Porthaethwy fis Rhagfyr, lle roedden ni'n hwyluso gwib-rwydweithio i fwy na 50 o fusnesu bwyd a diod hynod amrywiol ac aelodau'r Bwrdd. Roedd yn wych gweld cymaint o bobl, o gefndiroedd mor wahanol, yn siarad ac yn dysgu oddi wrth eu cyd-gynhyrchwyr yn y diwydiant.

Fel bob amser, cofiwch gysylltu â mi a gweddill y Bwrdd i rannu eich syniadau a'ch meddyliau ynghylch y sector.

Gyda dymuniadau gorau am Nadolig a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bob busnes bwyd a diod prysur ledled Cymru.

Welwn ni chi yn 2020 i gael mwy o gydweithredu a phartneriaethau wrth i ni lansio rhan nesaf ein cynllun gweithredu.

**Andy Richardson,**

**Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**